



Gofal Cymdeithasol Cymru  
Social Care Wales

# Datgloi pŵer data gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru - canllaw digwyddiad

Cyhoeddwyd gyntaf: 18 Ionawr 2024

Diweddariad olaf: 1 Chwefror 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/datgloi-pŵer-data-gofal-cymdeithasol-oedolion-yng-nghymru---canllaw-digwyddiad> am y fersiwn diweddaraf.

Manylion am siaradwyr a gweithdai ar gyfer *Datgloi pŵer data gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru* ar 6 Chwefror.

## **Croeso i *Ddatgloi pŵer data gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru* !**

Rydyn ni wedi ymuno ag YDG Cymru i drefnu'r digwyddiad hwn, lle byddwn ni'n archwilio cyfleoedd i wneud y gorau o ymchwil data gofal cymdeithasol oedolion.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod datblygiad data gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru.
- Bydd YDG Cymru yn arwain gweithdy gyda ni ar osod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil data cysylltiedig.
- Bydd Alma Economics yn arwain gweithdy am [ein gwaith parhaus gyda nhw i asesu aeddfedwydd data gofal cymdeithasol yng Nghymru](#).
- Bydd cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, YDG Cymru a Banc Data SAIL yn arwain gweithdy am gynnwys y cyhoedd a meithrin ymddiriedaeth wrth rannu data.

## **Gwybodaeth pwysig**

- **Recordio:** Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei gynnal ar Zoom a bydd yn cael ei recordio.
- **Newid i'r agenda:** Roedd y digwyddiad wedi'i drefnu'n wreiddiol i gynnwys lansiad grŵp ymchwil data gofal cymdeithasol oedolion ar gyfer ymchwilwyr sydd â diddordeb mewn prosiectau ymchwil data-ddwys ym maes gofal

cymdeithasol oedolion. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, bydd y sesiwn hon yn cael ei haildrefnu ar gyfer dyddiad diweddarach.

## **Agenda llawn**

### **10.00am i 10.15am: Cadw tŷ**

Dangos

Bydd Lisa Trigg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil, Data ac Arloesi Gofal Cymdeithasol Cymru, yn darparu gwybodaeth bwysig cyn gweithgareddau'r dydd.

Mae tîm Lisa yn cefnogi pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddefnyddio ymchwil a data i lywio ymarfer a'r gwaith o gynllunio polisiau a gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi pobl i arloesi yn eu gwaith.

Cyn ymuno â Gofal Cymdeithasol Cymru, bu Lisa'n gweithio yn Ysgol Economeg Llundain am saith mlynedd, gan wneud ymchwil a oedd yn cymharu systemau gofal cymdeithasol rhyngwladol.

Roedd ei hymchwil PhD yn cymharu dulliau'r llywodraeth yn Lloegr ac Awstralia i wella ansawdd gofal preswyl i bobl hŷn.

Cyn hyn, bu Lisa'n gweithio fel ymgynghorydd ac arweinydd ym maes rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn Awstralia a'r DU. Roedd y gwaith hwn mewn sectorau gan gynnwys cyfleustodau, TG, y cyfryngau, telathrebu, teithio a gofal iechyd.

### **10.15am i 10.40am: Croeso a sylwadau agoriadol - Mike Emery, Prif Swyddog Digidol ac Arloesi (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)**

Dangos

Mike Emery yw Cyfarwyddwr Technoleg ac Arloesedd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, ac ef hefyd yw Prif Swyddog Digidol GIG Cymru.

Mae Mike yn arwain yr agenda bolisi digidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhoi fframweithiau ariannu, cyflawni a rheoleiddio ar waith i alluogi cyflawni cynlluniau digidol a data iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru, sy'n sail i'r cynllun ehangach strategaeth 'Cymru Iachach'.

Yn ogystal, mae'n gyfrifol am feysydd polisi gwyddorau bywyd ac arloesedd, gan weithio gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector masnachol i ysgogi ffyrdd newydd o weithio a sicrhau bod datblygiadau arloesol yn cael eu mabwysiadu'n ehangach.

*Recordiwyd yr eitem hon yn ein digwyddiad yng Nghaerdydd ar 23 Ionawr.*

## **10.40am i 11.25am: Lynsey Cross, Swyddog Ymchwil, thema gofal cymdeithasol YDG Cymru - Gosod blaenoriaethau ymchwil data cysylltiedig**

Dangos

Mae Lynsey Cross yn cynnal gweithgaredd gosod blaenoriaethau gydag ac ar ran pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol oedolion neu'n ei ddefnyddio.

Nod y prosiect yw nodi rhestr o gwestiynau allweddol o'r sector gall cael eu hateb gan ddefnyddio data cysylltiedig.

Bydd y sesiwn hon yn cynnig cyfle i gyfranogwyr ddysgu am y broses ymchwil data cysylltiedig a pham y byddai hyn o fudd i'r sector gofal cymdeithasol

oedolion.

Bydd hefyd yn ofod i rannu themâu a chwestiynau a allai elwa o ymchwil data cysylltiedig.

## **11.25am i 11.35am: Egwyl**

Dangos

Egwyl fer.

## **11.35am i 12.20pm: Rob Dutfield, Alma Economics - Aeddfedrwydd data gofal cymdeithasol yng Nghymru - y stori hyd yn hyn**

Dangos

Nod y prosiect aeddfedrwydd data yw cefnogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i ddeall sut y gallant wneud y defnydd gorau o'r data sy'n cael ei gasglu, ei brosesu a'i rannu fel rhan o'u darpariaeth gofal cymdeithasol.

Mae deall pa mor data aeddfed yw eich sefydliad yn eich galluogi i wybod ble i ganolbwyntio'ch adnoddau i wneud y defnydd gorau o'r data rydych chi'n ei gasglu.

Mae dod yn well wrth ddefnyddio'r data rydyn ni'n ei gasglu yn gwella gwasanaethau yn y pen draw. Mae'n gwneud hyn drwy roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cyflwynir y gweithdy hwn gan [Rob Dutfield](#), Prif Economegydd yn Alma Economics, sydd â phrofiad helaeth o gefnogi sefydliadau i gael y gorau o'u data.

## **12.20pm i 1.10pm: Cinio**

Dangos

Bydd y cyfarfod Zoom yn aros ar agor yn ystod yr egwyl.

### **1.10pm i 1.45pm: Dr Rich Fry, Prifysgol Abertawe - Archwilio sut mae ymchwil data-ddwys wedi gwella polisi ac ymarfer**

Dangos

Mae Dr Rich Fry yn Athro Cyswllt mewn systemau gwybodaeth ddaearyddol a daearyddiaeth iechyd ac yn arwain Canolfan Ymchwil yr Amgylchedd ac Iechyd (ENVHE), sy'n defnyddio technegau dadansoddi data uwch i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant.

Mae ENVHE yn dwyn ynghyd ddaearyddwyr, epidemiolegwyr, ystadegwyr a gwyddonwyr data sy'n gweithio gyda'r data iechyd a gofal cymdeithasol arferol sy'n cael ei chadw o fewn Banc Data SAIL i gynhyrchu mewnwelediadau sy'n berthnasol i bolisi.

Yn y cyflwyniad hwn bydd Rich yn trafod sut y gallwn ni ddefnyddio cysylltiadau lefel cyfeiriad i gysylltu data aml-sector, gan gynnwys data gofal cymdeithasol, i ddeall heneiddio'n iach yng Nghymru.

### **1.45pm i 2.15pm: Joseph Wilton, Pennaeth Lles a Gwelliant, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru - Datblygu data gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru**

Dangos

Joseph Wilton sy'n arwain y tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gasglu data, ymchwil ac arloesi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd y gweithdy'n amlinellu tirwedd casglu data gofal cymdeithasol oedolion, gan gynnwys yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, beth fydd yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a'r hyn sy'n cael ei archwilio ar hyn o bryd.

Gwahoddir mynychwyr i ystyried sut y gellir gwneud data yn fwy defnyddiol iddyn nhw a helpu i lywio cyfeiriad gwelliannau dros y blynyddoedd i ddod.

## **2.15pm i 2.25pm: Egwyl**

Dangos

Egwyl fer.

## **2.25pm i 2.45pm: Cynnwys y cyhoedd a meithrin ymddiriedaeth wrth rannu data**

Dangos

Mewn sesiwn dan gadeiryddiaeth Lisa Trigg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil, Data ac Arloesi Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd panel o arbenigwyr yn trafod sut y gall rhanddeiliaid gwahanol gynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau ynghylch rhannu data, a thryloywder ynghylch defnyddio data cyhoeddus. Bydd aelodau'r panel wedyn yn ymuno â'r rhai sy'n bresennol mewn ystafelloedd grŵp i drafod ymhellach.

Bydd y panel yn cynnwys:

**Lynsey Cross**, Swyddog Ymchwil, thema gofal cymdeithasol YDG Cymru

**Ashley Akbari**, Athro Ymchwil Gwyddor Data Poblogeath, Prifysgol Abertawe

**Owen Davies**, Rheolwr Data a Gwybodaeth, Gofal Cymdeithasol Cymru

**Bethan Bonsall**, Uwch Swyddog Polisi, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

## **2.45pm i 3pm: Sylwadau cloi - Lisa Trigg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil, Data ac Arloesi Gofal Cymdeithasol**

## Cymru

Dangos

Bydd Lisa yn dod a'r diwrnod i ben.

## Rhowch eich barn

Defnyddiwch ein ffurflen adborth i ddweud eich barn am y digwyddiad heddiw.